# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 8 Tachwedd 2022 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 9 Tachwedd 2022 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 16 Tachwedd 2022 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

---

**PWNC – Gwaredu diddordeb y Cyngor fewn tir sydd wedi ei leoli yn stad ddiwydiannol Tywyn.**

---

**PENDERFYNIAD**

Gwaredu diddordeb y Cyngor yn y llecyn tir o fewn Stad Ddiwydiannol Gwalia, Tywyn, a amlygir yn goch ar y cynllun ynghlwm yn uniongyrchol i drydydd parti ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Efan Thomas<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 08/11/2022 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc :** Gwaredu diddordeb y Cyngor fewn tir sydd wedi ei leoli yn stad diwydianol Tywyn.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Gwaredu diddordeb y Cyngor yn y llecyn tir o fewn Stad Diwydianol Gwalia, Tywyn, a amlygir yn goch ar y cynllun ynghlwm yn uniongyrchol i drydydd parti ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Galluogi'r Cyngor i waredu eiddo sydd yn weddill i anghenion y Cyngor ar gyfer defnydd gweithredol.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae cais wedi ei dderbyn i brynu'r llecyn tir bychan sy'n gyfochrog a garej o fewn Stad Diwydianol Gwalia gan y Cyngor. Bwriad y darpar brynwr yw clirio'r safle, a chreu pwyntiau gwefru i geir. Fel perchennog cyffiniol yr eiddo, ystyrir fod y safle yn fwy gwerthfawr iddyn nhw nac unrhyw brynwr arall. Bydd y ddarpariaeth a fwriedid o bwyntiau gwefru hefyd yn darparu gwasanaeth ar gyfer trigolion yr ardal, yn ogystal â buddion amgylcheddol. Byddai cymeradwyo'r penderfyniad a geisir i werthu yn uniongyrchol i'r darpar brynwr yn golygu fod y Cyngor yn hepgor y costau fyddai'n gysylltiedig â chynnal yr safle yn yr hir dymor.

Fel rhan o'r trosglwyddiad, bwriedir cyfyngu'r defnydd i le parcio ar gyfer gwefru cerbydau yn unig. Bwriedir hefyd cynnwys cymal er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn adennill canran (50%) o'r cynnydd yng ngwerth y safle pe bai hawl cynllunio i ddatblygu ar gyfer defnydd amgen yn cael ei sicrhau i'r dyfodol.

Byddai cymeradwyo’r argymhelliad a gwaredu’r eiddo yn galluogi’r Cyngor i symud ymlaen heb oedi i waredu’r eiddo ac osgoi costau diangen mewn cyswllt a chynnal yr safle.

Nid oes unrhyw fwriad i dderbyn llai na gwerth y farchnad am yr eiddo.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid** – “Credaf fod y penderfyniad a geisir yn gam rhesymol fydd yn uchafu’r buddion a ddaw i’r Cyngor o waredu’r tir yma, sy’n weddill i’n anghenion.”

**Swyddog Monitro** – “Mae’r hyn a argymhellir yn cynnig ffordd resymegol o waredu’r tir penodol yma. Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.”

**Aelod/au Lleol**: Cynghorydd John Pughe –

“Ar ôl ymweld â'r safle, rwy'n meddwl ei fod yn syniad da iawn. Bydd yn tacluso'r ardal ac yn darparu 2 pwynt gwefru ar gyfer ailwefru ceir.”